

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	David Andrew Parry	Alan Harper-Smith	Greta Hughes
William Penri Jones	William Roger Jones	Gwenllian Hughes	Claire Russell Griffiths
Ian Goronwy Williams	Ann Llwyd (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)	

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb pan nad ydynt yn siarad i roi eu hunain ar 'mute' gan ei fod yn amharu ar y cyfieithydd ac ymddiheurodd y cadeirydd hefyd i'r cyfieithydd am beidio rhoi seibiant iddi yn y cyfarfod diwethaf ond gan ei bod wedi datgan os bydd y cyfarfod yn cael ei gyfyngu i 2 awr yna ni fydd angen seibiant arni felly cadarnhaodd y cadeirydd y bydd y cyfarfod heno yn gorffen am 9.00 yr hwyr.

1. Ymddiheuriadau

Thomas Victor Jones.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 29/03/2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: William Roger Jones Eilio: Andrew Parry

4. Unrhyw Fater Brys

Ad-hawlio TAW 2020-2021

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi rhoi cais i fewn am ad-hawlio TAW am y flwyddyn 2020-2021.

Cyfrif Nat West

Cafwydd diweddariad am y cyfrif Nat West sef bod y clerc wedi mynd a'r mandad i fewn i newid y rhai sydd yn arwyddo ond nid oes sicrwydd y caiff ei dderbyn gan fod y 3 sydd yn arwyddo wedi marw ac efallai y bydd angen i gyfreithiwr ddelio gyda'r mater ar ein rhan ond fe wnaiff Bethan o Nat West Pwllheli diweddarau'r clerc pan fydd yn gwybod beth sy'n digwydd. Y broblem fawr mae hyn yn mynd i greu ydi, oherwydd fod y cyfrif yma yn rhan o'r archwiliad ac nid oes gan y clerc fynediad i'r cyfrif i gael copi o'r datganiadau banc ni ellir cwblhau'r ffurflen flynyddol i'r archwiliwyr mewnol o fewn yr amser penodol.

5. Cyfieithu

Yng nghyfarfod mis Mawrth trafodwyd y ffordd ymlaen hefo cyfieithu ac mae Ann Llwyd wedi cytuno i gyfieithu yn y cyfarfodydd o hyn allan. Cytunodd y clerc hefyd i ddefnyddio google translate i gyfieithu cofnodion pwyllgor mis Mawrth erbyn pwyllgor Ebrill ac fe gafodd bawb gopi o'r cyfieithiad yn union fel y daeth allan o google translate. Dywedodd y clerc fod y cyfieithiad yn warthus ac yn llawn gwallau ac fe fuasai'n rhaid iddi fynd drwyddo i gyd a'i gyfieithu yn iawn yn hytrach na darllen drwyddo a newid rhai geiriau fel y soniwyd wrthi ym mhwyllgor Mawrth. Dywedwyd hefyd ym mhwyllgor Mawrth y buasai'n opsiwn rhoi mwy o oriau i'r clerc eu cyfieithu a gofynnodd y cadeirydd i'r clerc beth oedd ei barn a datgannodd nad oedd yn hapus i gyfieithu

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

gan y buasai'n golygu llawer mwy o oriau nag oedd wedi ei feddwl ac felly yn methu, a bod angen cyfieithydd proffesiynol i wneud y gwaith.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda cyfieithwyr lleol i gael prisiau erbyn y cyfarfod nesaf ac yn y cyfamser cynigiodd Gwenllian Hughes gyfieithu y cofnodion a'r agenda erbyn pwyllgor mis Mai a diolchodd yr aelodau iddi.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: Greta Hughes

6. Llwybrau

Cafwydd diweddariad ar y llwybrau. Mae'r giat yn ôl ar llwybr drwy'r Nant ac mae'r swyddog llwybrau wedi bod yn gweld llwybr cefn yr Ysgol ac yn cytuno ei fod yn gul ac am gael gair hefo'r tir feddianwr i wella'r rhan yma o'r llwybr. Mae Pozzi wedi dechrau torri llwybrau'r mynydd ac mae Stuart wedi trwshio y ffens ar ran o lwybr zig zag a dywedodd Ian Goronwy Williams fod angen trwshio'r step yn y giat fochyn lle mae'r concrit wedi gwisgo ac angen ei ail wneud ac addawodd y cadeirydd i fynd i'w weld a gadael i Stuart wybod. Dywedodd Andrew Parry y buasai'n gyrru lluniau o'r giat fochyn i'r clerc a'r cadeirydd.

7. Y Fynwent

Tacluso'r fynwent

Mae'r cadeirydd wedi bod a Stuart i weld wal y fynwent ac fe ddaeth Mr & Mrs Pollard yno atynt a cytunwyd i drwshio rhan o'r wal. Mae yna ddarn mawr o'r wal ble mae cerrig ar hyd ei phen yn rhydd a dipyn o eiddew yn sownd ynddi felly mae angen bod yn ofalus i beidio cyffwrdd a'r rhan honno neu mae'n berig i'r wal ddod i lawr.

Gofynnwyd i'r clerc ym mhwyllgor Mawrth i roi blodau ar fedd Mrs Harris dair gwaith y flwyddyn sef Nadolig, Sul y Blodau ac ar ei phenblwydd ond mae'r clerc wedi methu dod o hyd i'r gwaith papur ar gyfer claddedigaeth Mrs Harris ac felly ddim yn gwybod ei dyddiad geni felly gofynnodd y clerc i'r aelodau i ddewis mis arall yn lle dyddiad ei phenblwydd a cynigiodd William Penri Jones mis Awst. Gan fod Mrs Harris wedi gobeithio cael ei chladdu hefo'i mham a'i thad ond wedi methu cael gwneud hynny mae'r clerc i roi blodau ar fedd ei mham a'i thad yr un amser.

Cytunodd bawb ar fis Awst ac i roi blodau ar y ddau fedd.

Cynllunio i'r Dyfodol – Y Fynwent Newydd

Dim diweddariad.

Newid enw'r Trustees – Bryn Martin

Cafwydd diweddariad gan y clerc, mae hi wedi bod mewn cysylltiad â swyddfa Bryn Martin ynglŷn â newid enw'r trustees a'r cam cyntaf oedd mynd a'r tystysgrif marwolaeth ar gyfer y ddau sydd wedi marw i fewn i'r swyddfa ac mae'r clerc wedi eu hatgoffa fod dipyn o frys i newid yr enwau.

9. Oriau ychwanegol y cyn glerc (87 awr)

Mae'r mater yma wedi bod ar yr agenda ers rhai misoedd a'r penderfyniad diwethaf oedd fod Greta Hughes i fod i fynd drwy cofnodion Ionawr i Awst 2020 a gwneud rhestr o'r holl waith na chafwyd ei wneud yn ystod y cyfnod yma gan y cyn glerc. Yn y cyfamser derbyniwyd llythyr gan y cyn glerc yn egluro beth yw'r oriau ychwanegol ac fe gafodd ei flaenyrru i'r aelodau. Fe aeth

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Greta Hughes drwy'r rhestr oedd hi wedi ei baratoi sef tair tudalen, ac yn amlwg mae cryn dipyn o waith heb gael ei wneud er eu bod wedi cael eu pasio yn y cyfarfodydd i'w gwneud. Tydi Greta Hughes ddim yn hapus fod gwaith ychwanegol wedi cael ei dalu i'r cyn glerc yn barod am y flwyddyn a hanner flaenorol ac felly nid yw'n teimlo fod angen talu mwy iddi. Cytunodd William Roger Jones fod diffygion ond gan fod aelodau newydd ar y Cyngor mae o eisiau i bawb wybod y cefndir: Fe benodwyd Rhian Parry y cyn glerc i'r swydd ac 'roedd pawb yn hapus hefo'r penodiad ond 'roedd y clerc blaenorol sef John Harris wedi bod yn wael am amser maith ac ddim wedi medru gwneud llawer o'r gwaith cyn i Rhian Parry ddechrau felly 'roedd dipyn o lanast yn ei gwynebu ac fe gafodd ei rhoi mewn sefyllfa anodd heb neb i ofyn am arweiniad. 'Roedd yn teimlo fod pethau yn gwella wedyn ac 'roedd hi yn dechrau deallt beth oedd angen ei wneud ac 'roedd y cyngorwyr yna i fod i helpu hi ond erbyn y diwedd fe gafodd ei gwneud i deimlo'n annifyr oherwydd 'roedd rhai aelodau yn cwyno ac yn gwneud cyhuddiadau yn ei herbyn oherwydd nad oedd y gwaith yn cael ei wneud yn iawn. Mae'n deallt mai dyletswydd y Cyngor ydi arian y cyhoedd ond mae'n ddylestwydd hefyd i barchu aelodau a gweithwyr y Cyngor ac nid oes gan y Cyngor dystiolaeth ei bod ddim wedi gwneud y gwaith ychwanegol yma. Fe ymddiswyddodd y cyn glerc yn fuan wedyn a fe ymddiswyddodd nifer o'r aelodau yr un amser oherwydd y cyhuddiadau yn eu herbyn nhw hefyd felly dylai'r Cyngor ddangos parch iddi, mae hi wedi colli ei swydd ac er nad oedd yn berffaith mi ddylia fod yr aelodau wedi rhoi mwy o gymorth iddi. Felly mae William Roger Jones yn teimlo ac yn cynnig y dylai'r Cyngor anrhydeddu'r taliad yma ac mae William Penri Jones yn eilio'r cynnig. Mae Greta Hughes yn falch fod William Roger Jones yn sôn am barchu pobol, dwy flynedd a hanner fuodd Rhian Parry yn glerc ac yn yr wyth mis diwethaf mae hi wedi gwneud yr 87 awr ychwanegol yma, mae hi eisioes wedi cael arian am waith ychwanegol y flwyddyn a hanner cynt ar ben ei chyflog ac 'roedd Iwan Hughes yn ei helpu hefo'r awdit. Mae Greta Hughes yn teimlo fod yr arian am yr oriau ychwanegol am yr wyth mis diwethaf yma yn hollol anghyfrifol i'r Cyngor ei dalu ac mae Greta Hughes yn rhoi gwelliant i'r cynnig blaenorol fod y Cyngor ddim yn talu'r cyn glerc. Dywedodd y cadeirydd fod yna ddipyn o waith wedi cael ei wneud hefo Covid a cafwyd amryw o gyfarfodydd ym mis Awst lle nad oes cyfarfod fel arfer. Atebodd Greta Hughes drwy ddweud nad oedd hi'n meddwl fod dim llawer o waith Covid wedi cael ei wneud ac fe wnaeth hi ebstio yn gofyn beth oedd y Cyngor am ei wneud ac ni wnaethpwyd fawr o ddim. Dywedodd Claire Russell Griffiths fod ganddi dystiolaeth nad oedd y cyn glerc yn gwneud ei gwaith ac un o'r prif gwynion oedd ganddi amdani ar ôl codi'r diffygion oedd y ffaith ei bod yn cael ei anwybyddu gan y cyn glerc. Hefyd mae'r awdit yn profi nad oedd yn gwenud ei gwaith a tydi hi ddim isho fod yn rhan o dalu rhywun i wneud gwaith sy'n ddiffygiol, tydi'r 'timesheets' ddim byd dim ond bocsys gwahanol liwiau ac ddim yn profi pa ddyletswydd sydd wedi cael ei wneud yn ychwanegol. 'Roedd hefyd cyfnod yn ystod covid lle nad oedd angen cynnal cyfarfodydd ac 'roedd pawb yn ymateb drwy ebyst i'w gilydd ac 'roedd pawb yn pryderu yr adeg honno nad oedd cyfarfodydd yn cael ei gynnal i drafod materion. Ni fuasai Claire Russell Griffiths byth yn gallu cytuno i dalu'r arian ychwanegol yma pan mae digon o dystiolaeth yn dangos nad oedd y cyn glerc yn gwneud ei gwaith. Dywedodd y cadeirydd nad oedd y cyn glerc yn gyfrifol am wneud awdit 2017-2018 ond dywedodd Claire Russell Griffiths ei bod yn gyfrifol am y ddwy flynedd wedyn ac 'roedd y diffygion yn gwaethygu yn lle gwella ac felly yn amlwg nad oedd

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869 •

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

yn deallt y gwaith. Gofynnodd Andrew Parry beth yw'r sefyllfa cyfreithiol os yw'r Cyngor yn gwrthod talu'r cyn glerc a dywedodd y cadeirydd ei fod yn dweud yng nghytundeb y cyn glerc fod y Cyngor yn talu oriau ychwanegol a bod oriau ychwanegol wedi cael ei dalu iddi yn y gorffennol a gofynnodd Claire Russell Griffiths i'r cadeirydd os oedd tystiolaeth am yr oriau ychwanegol yma yn y gorffennol wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor? Ac atebodd drwy ddweud fod 'timesheets' wedi cael eu cyflwyno am y gwaith a'i fod yn ymddiried ynnddi ei bod wedi gwneud y gwaith. Dywedodd y cadeirydd hefyd nad oedd rhai o'r aelodau wedi rhoi cymorth i'r cyn glerc er ei bod wedi bod yn gofyn amdano i gyflawni e.e.y rhestr eiddo ac felly ei fod yn cael ei ail roi ar yr agenda fis ar ôl fis. Mae Greta Hughes eisiau dweud nad oedd ganddi hi ran, er ei bod yn y cyfarfod am y ffaith fod y cyn glerc wedi cael arian ychwanegol y blynyddoedd blaenorol oherwydd nad oedd wedi cael cyfle i ddweud ei barn ar y mater, daethpwyd i benderfyniad heb wrando arni ac 'roedd hi yn erbyn y penderfyniad amser hynny hefyd yn ogystal a rwan am yr un rhesymau. Dywedodd hefyd fod y cyn gadeirydd Iwan Hughes yn ei helpu ac yntau yn glerc Cyngor Cymuned ei hun felly fysa hi ddim fod wedi cael neb gwell i'w helpu. Gofynnodd William Penri Jones am bleidlais gan fod dipyn o anghytuno ar y mater. Dywedodd Ian Williams fel aelod newydd ei fod yn anodd rhoi pleidlais un ffordd na'r llall gan nad ydyw yn andabod y cyn glerc nac yn gwybod dim am ei gwaith felly sut mae'r aelodau newydd i fod i wneud penderfyniad i bleidleisio ar sail diffyg gwybodaeth. Gofynnodd Andrew Parry os oes gan yr aelodau newydd hawl i ymatal o ran pleidlais a cadarnhaodd y cadeirydd fod ganddynt yr hawl. Felly cafwyd cynnig gan William Roger Jones i dalu'r cyn glerc ac eiliwyd gan William Penri Jones yna cafwyd gwelliant i'r cynnig gan Greta Hughes i beidio talu'r cyn glerc ac eiliwyd gan Claire Russell Griffiths.

Penderfyniad: cafwyd pleidlais: 4 yn erbyn talu a 4 o blaid talu ac un yn ymatal rhag pleidleisio felly mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan os yw'r pleidlais yn gyfartal mae gan y cadeirydd yr hawl i roi pleidlais fwrw ac mae ef yn pleidleisio i dalu'r cyn glerc. Gan fod y Rheolau Sefydlog yn datgan y gall unrhyw aelod hawlio cofrestru ei bleidlais unigol ar unrhyw achlysur mae Claire Russell Griffiths a Greta Hughes yn dymuno cael cofnod eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn talu'r cyn glerc.

10. Sedd Wag

Cafwyd diweddariad gan y clerc. Mae'r rhybudd cyntaf wedi ei roi fyny ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r neuadd, ar tudalen gweplyfr y Cyngor ac ar wefan y Cyngor gyda'r dyddiad cau o 10^{fed} o Fai 2021. Mae'r rhybudd yma yn gofyn os oes unrhyw un yn gofyn am etholiad ac os derbynir deg llofnod yn gofyn am etholiad yna fe fydd rhaid cynnal un ond os na dderbynir cais am etholiad yna bydd yr ail rybudd yn mynd i fyny yn gofyn am enwebiadau ar gyfer y sedd wag ac fe fydd yr hawl wedyn gan y Cyngor i ddewis aelod newydd. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod wedi rhoi yr hysbyseb ar wefan gwybodaeth Llanbedrog ac mae yn gobeithio y bydd diddordeb mawr ac yn bersonol iddo fo mae'n gobeithio y bydd yr aelod newydd fel yntau yn ddi gymraeg ac yna fe fydd y cyfieithu yn talu am ei hun. Gan fod Llanw Llŷn angen bob dim i fewn dechrau'r mis ar gyfer y rhifyn nesaf tydi'r dyddiadau ddim yn mynd i weithio allan ar gyfer y rhybudd nesaf ac fe fydd yn rhu hwyr.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Penderfyniad: y clerc i hysbysebu yr ail rybudd yn yr un ffordd ar rhybudd cyntaf ac hefyd i yrru'r ail rybudd i'r aelodau iddyn nhw ei brintio allan a'i roi yn y sopiau lleol.

Dywedodd Andrew Parry ei fod wedi trio trwshio un o'r ddau hysbysfwrdd sydd y tu allan i'r neuadd oherwydd eu bod mewn cyflwr gwael iawn ac os fysai'n bosibl gofyn i Stuart i gael golwg arnynt i wneud yn siwr bod modd eu hagor i'w diweddarau yn rheolaidd. Dywedodd y cadeirydd y gwnaiff gysylltu hefo fo a pasio'r neges ymlaen.

11. Coronavirus covid-19 – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim diweddariad – cario mlaen i ddefnyddio Zoom oherwydd nid oes cyfarwyddyd wedi ei dderbyn ynglŷn â cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol agos.

12. Neuadd y Pentref – Diweddariad

Cafwydd diweddariad gan y cadeirydd fod y bin newydd a archebwyd i'r neuadd gan y clerc ar gais gan Andrew Parry wedi cyrraedd a cafwyd diweddariad gan y clerc ei bod wedi bod yn cynnal profion ar y diffib er mwyn diweddarau'r wefan The Circuit ac mae bob dim yn iawn.

13. Dogfennau ar gyfer yr archwiliad mewnol

Cafodd yr aelodau i gyd gopi o'r dogfennau sydd angen eu cymeradwyo yn y pwyllgor blynyddol ar gyfer yr archwiliad mewnol a'r ddau ddogfen sydd angen eu newid yn syth ydi'r Asesiad Risc a'r Polisi Iaith.

Penderfyniad:

Polisi Iaith

Mae angen newid y geiriad i ddweud fod Cyngor Cymuned Llanbedrog yn gyfrifol am, ac yn talu am gyfieithydd yn y cyfarfodydd ac i gyfieithu dogfennau'r Cyngor o fis i fis.

Asesiad Risc

Mae angen gwneud rhai newidiadau i'r asesiad risc:

Gosod y coed nadolig a gosod y goleuadau nadolig – newid y geiriad i ddweud fod aelodau y Cyngor a'r cyhoedd yn gyfrifol i roi y goeden nadolig â'r goleuadau i fyny ac i gymeryd pwyll wrth wneud.

Traeth a Cytiau Lan y Môr – tynnu'r rhain oddi ar yr asesiad risc.

Llwybrau – y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am dorri'r llwybrau drwy roi tendar allan am y gwaith bob tair blynedd.

Cyffredinol – mae angen apwyntio rhywun i archwilio'r eitemau o dan y rhan 'Cyffredinol' a penderfynwyd gofyn i Stuart Livingstone a cytunodd y cadeirydd i ddweud wrtho.

Offer Cae Chwarae – mae angen cael rhywun i archwilio yr offer cae chwarae a penderfynwyd gofyn i Wickstead.

Toiledau – gofynwyd i'r clerc ofyn i Cyngor Gwynedd pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r toiledau.

Ffair/Sioe – ei dynnu oddi ar yr asesiad risc.

Cafwyd awgrymiad gan Andrew Parry i bawb ddarllen gweddill y dogfennau er mwyn eu cymeradwyo y mis nesaf a cytunodd pawb a pwysleisiodd y clerc bod rhaid eu cymeradwyo yn y cyfarfod blynyddol.

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

14. Llythyr Cyngor Tref Nefyn

Cafwyd diweddariad gan y clerc a derbyniwyd y wybodaeth.

Ceisiadau Cynllunio

C21/0337/38/DT – Derwen Deg, Llanbedrog – Dymchwel modurdy unllawr. Codi modurdy dwbl gydag anecs trosodd at ddefnydd personol yr ymgeisydd a theulu a ffrindiau yn achlysurol.

Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad o'r safle, pryder ynglŷn â system carthffosiaeth anaddas a ffordd anaddas i'r tai. Hoffai'r Cyngor Cymuned bwysleisio hefyd nad yw'r cynllun yn gywir hefo lleoliad yr adeilad presennol felly mae'n gamarweiniol ac nid oes cynllun presennol yna i gael cymharu y cynllun presennol a bwriededig.

C21/0335/38/DT – 29 Glyn y Môr, Llanbedrog – Estyniadau ac addasiadau.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

C21/0380/38/DT – Arwel, Llanbedrog – Y tu cefn i'r eiddo; tynnu y to brig o'r estyniad unllawr presennol a chodi estyniad llawr cyntaf dros yr ôl troed presennol. Adeiladu estyniad ystafell haul unllawr. Cynigion diwygiedig i'r rhai a gymeradwywyd yn flaenorol dan gyfeirnod cais C20/0563/38/LL.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Taliadau wedi eu Cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.73
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£70.00
Pat Humphreys - ad-daliad torri gorriad	£3.50
Neuadd y Pentref i Cartref Dolwar	
Pat Humphreys – ad-daliad blodau ar	£7.50
fedd Mrs Harris a'i mham a'i thad	
Dwr Cymru – Mynwent Llanbedrog	£67.46
Designer Signs – Arwyddion Dim	£226.80
Ysmygu	

Taliadau wedi eu Derbynnu

Ar y pwynt o dderbyn a talu taliadau gofynnodd Claire Russell Griffiths os byddai'n bosibl rhoi'r mater ar yr agenda mis nesaf oherwydd mae hi wedi bod drwy'r taliadau am y blynyddoedd 2018-2019 & 2019-2020 ac mae yna ddiffygion ynglŷn â taliadau sydd wedi cael eu gwneud yn y gorffennol heb y tystiolaeth cywir i'w dalu. Gofynnodd y cadeirydd am y dystiolaeth a cytunodd Claire Russell Griffiths i anfon copiau o'r dystiolaeth i bawb erbyn y pwyllgor nesaf.

8. Cae Chwarae

Cafwyd diweddariad gan y cadeirydd fod y ffens wedi cael ei thrwsio gan Stuart ac mae'r arwyddion 'Dim Ysmygu' wedi cyrraedd.

Cafwyd cais gan Alaw Ceris Cadeirydd Pwyllgor Cae Chwarae i gael siarad yn y pwyllgor ond gan ein bod yn brin o amser mae'r cadeirydd wedi cael gair hefo hi ac am godi'r materion oedd ganddi.

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Yng nghyfarfod mis Hydref diwethaf pan ddaeth Alaw Cerris i siarad hefo'r Cyngor cytunwyd i wneud chydig o bethau ac nid ydynt wedi cael eu gwneud ac maent i gyd yn y cyfnodion.

1. Mae'r cadeirydd wedi rhoi copi o'r map sy'n dangos lleoliad wifren trydan Scottish Power iddi.
2. Mae angen cael hyd i'r gweithredoedd felly mae'r clerc am ofyn i swyddfa Bryn Martin.
3. Mae angen gofyn i Wicksteed ddod i archwilio'r offer yn y cae chwarae a gofyn am bris ganddynt i wneud hynny felly mae'r cadeirydd am fynd yno i weld beth sydd yno a gadael i'r clerc wybod.
4. Mae angen gwneud llythyr ffurfiol i bwyllgor y cae chwarae gan y Cyngor Cymuned fel triffeddianwyr yn datgan eu bod yn fodlon hefo unrhw gais a roddi'r gan pwyllgor y cae chwarae er mwyn sicrhau grantiau/cefnogaeth ariannol gan fudiadau allanol a cytunodd y clerc i yrru'r llythyr iddi.
5. Mae angen gwneud map yn dangos ffin y cae chwarae iddynt hefyd ac fe fydd hwnnw hefo'r gweithredoedd.

Gofynnodd Alan Harper-Smith os yw codi arian i wella'r cae chwarae yn rhywbeth i'r pentref yntai i'r Cyngor Cymuned ac eglurodd y cadeirydd wrtho nad yw'r Cyngor Cymuned yn cael casglu arian i wneud y gwelliannau yma a dyna paham fod pwyllgor y cae chwarae wedi cael ei sefydlu fel grŵp annibynnol i godi arian i wneud y gwelliannau yma.

Gofynnodd Greta Hughes os ydi'r Cyngor Cymuned yn gwybod lle mae eu gweithredoedd ac nid oedd neb yn gwybod felly mae'r clerc am ofyn i swyddfa Bryn Martin ac os nad ydynt ganddo ef gofyn i Lloyds Banc.

Gofynnodd Claire Russell Griffiths os ydi'r mater PAYE y cyn glerc wedi cael ei sortio a dywedodd y cadeirydd bod rhaid gofyn wrth pwy bynnag oedd yn cadeirio yr adeg honno ond bod PAYE y clerc presennol wedi cael ei sortio ganddo fo.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 26/04/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 9.00y.h